# CYLCHLYTHYR 08.11.24

## Presenoldeb

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23-24 | 88.5% | Targed 24 – 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.7% |

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol gynradd yn bwysig iawn ar gyfer dyfodol eich plentyn. Pan fydd plant yn mynychu'r ysgol bob dydd, maent nhw'n dysgu mwy ac yn adeiladu sylfeini cryf ar gyfer eu haddysg.

Mae presenoldeb da yn eu helpu i ddatblygu arferion da, aros ar y trywydd iawn gyda'u hastudiaethau, ac yn sefydlu perthnasau da. Gall colli ysgol ei gwneud yn anoddach i'ch plentyn ddal i fyny a gall effeithio ar eu hyder hefyd.

Rydym yn tracio presenoldeb ar draws yr ysgol ac yn ei gyhoeddi yma bob pythefnos. Fel y gwelwch o'r manylion uchod, nid ydym ar darged eto. Dewch i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn iddynt gael y cyfle gorau ar gyfer dyfodol disglair.

Diolch am eich cefnogaeth!


## Nosweithiau rieni

Byddwn yn cynnal nosweithiau rieni i ddisgyblion ar **ddydd Mawrth a Mercher, Tachwedd 12fed a 13eg** HEBLAW i ddosbarth Ywen. Mi fydd nosweithiau i rieni dosbarth Ywen yn digwydd ar ddydd **Mercher 13eg a dydd Iau'r 14eg.** Bydd y cyfarfodydd yn digwydd yn yr ysgol, heblaw bod gennych anawsterau cyrraedd y safle. Yn yr achos yma, plîs ffoniwch y swyddfa i drefnu sgwrs dros y ffôn.

Anfonwyd linc i fwcio apwyntiad atoch ar ddydd Gwener, Hydref 25ain o wefan Juniper Education. Gwiriwch eich ffolder spam os nad ydych yn ei dderbyn.

## Aelodaeth yr Urdd

Mae ymaelodi gyda'r Urdd yn cynnig nifer fawr o weithgareddau difyr i'ch plentyn, o gystadlaethau chwaraeon amrywiol (pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, nofio i enwi rhai), dawnsio, coginio yn ogystal â'r cyfle i gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd, ac i ymweld â gwersylloedd preswyl yr Urdd.



Cost aelodaeth am y flwyddyn yw £10 am unigolyn, £25 am deulu o 3 neu fwy. Os yw'ch plentyn yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, ceir ymaelodi am £1 y pen. Cliciwch yma i ymaelodi.

## Llyfrgell yr ysgol



Mae llyfrgell yr ysgol wedi cael ychydig o drawsnewid yn ddiweddar. Mae gennym ystod eang o lyfrau stori, ffuglen a ffeithiol Cymraeg a Saesneg, ar gyfer pob lefel. Mae rhywbeth at ddant pawb!

Mae codi safonau darllen ar draws yr ysgol wedi ei adnabod fel targed i'r ysgol eleni, a gobeithiwn y bydd datblygu a rhannu'r cyfleuster hwn yn ein helpu i gyrraedd ein nod. Gobeithir y bydd annog plant i ddarllen a mwynhau llyfrau o oedran ifanc yn rhoi cariad at ddarllen er pleser ynddynt, felly anogwch eich plentyn i ymuno.

Mae rhai o'n disgyblion blwyddyn 5 a 6 wedi gwirfoddoli i redeg 'clwb llyfrgell' ddwywaith yr wythnos yn ystod amser cinio, gan oruchwylio disgyblion eraill ac awdurdodi benthyca llyfrau.

Yn y clwb llyfrgell, caniateir i ddisgyblion ddewis un llyfr ar y tro i fynd adref gyda nhw, a gofynnwn fod llyfrau yn cael eu dychwelyd cyn benthyg un arall.

Gofalwch am y llyfrau hyn orau y gallwch – rydym yn deall bod damweiniau'n digwydd ac os caiff llyfr ei ddifrodi, dywedwch wrth aelod o staff.

Byddwn hefyd yn agor y llyfrgell i chi fel teuluoedd i ddod i fenthyg llyfrau i'ch plant. Bydd y llyfrgell ar agor i chi ar ôl ysgol ar ddydd Mawrth, gan ddechrau wythnos nesaf ar 12 Tachwedd, tan 4:30pm. Gallwch ddod i bori drwy'r llyfrau gyda'ch plant a dewis dau ar y tro, fesul plentyn, i'w benthyca. Mae croeso i chi hefyd ddod i eistedd a darllen gyda'ch plentyn yn ystod y cyfnod hwn – nid oes angen i chi fynd â llyfrau adref. Bydd te a choffi ar gael, a llefrith a dŵr i'r plantos.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu dydd Mawrth!

## Plant mewn angen / Children in need



Byddwn yn cefnogi ymgyrch Plant Mewn Angen unwaith eto eleni, gan ofyn i'r disgyblion wisgo rhywbeth smotiog neu byjamas i'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 15fed. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 tuag at yr achos.

## Pêl-droed yr Urdd Merched Blwyddyn 5 a 6 a thim cymysg blwyddyn 3 a 4

Aeth ein pêl droedwyr o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i gynrychioli'r ysgol yng ngwyl pêl droed yr Urdd ar ddydd Mawrth. Chwaraeodd y merched yn llawn ymdrech a chalon yn erbyn nifer o dimau cryf iawn, wrth i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 gystadlu'n frwd yn erbyn llawer o ysgolion talentog iawn hefyd. Daethom o fewn trwch blewyn o'i gwneud hi ymlaen i'r rowndiau cyn-derfynnol. Da iawn blant!





## Ymweliad y llysgenhadon gyda'r Senedd

Aeth 4 o'n disgyblion i ymweld a Senedd Cymru dydd Mawrth. Cafwyd cyfle i gwrdd a'n prif weinidog, Eluned Morgan a gweld y siambr dadlau. Diolch blant am eich ymdrechion.



# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 12.11.24 | Noson Rieni |
| 13.11.24 | Noson Rieni |
| 13.11.24 | Pwyllgor COP Ieuenctid Cymru (Cynrychiolwyr Eco Gyngor) |
| 14.11.24 | Noson Rieni (Ywen yn unig) |
| 14.11.24 | Gwasanaeth goffa Mynwent y Gorllewin, 11yb |
| 15.11.24 | Gwasanaeth deintyddol ysgolion – farnais fflworid DD – bl 2 |
| 21.11.24 | Bore agored Derbyn 2025 9:30 – 11:00 |
| 01.12.24 | Côr yr ysgol yn perfformio yn nigwyddiad goleuo coeden Nadolig y Tyllgoed – manylion i ddilyn |
| 03.12.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 10.12.24 | Sioe Nadolig Derbyn, bl1 a bl 2 – 1:30yp (manylion i ddilyn) |
| 11.12.24 | Sioe Nadolig Derbyn, bl1 a bl 2 – 9:30yb (manylion i ddilyn) |
| 12.12.24 | Gwasanaeth Nadolig Bl 3 – 6, Eglwys yr Atgyfodiad, Trelai (gwasanaethau prynhawn a min nos – manylion i ddilyn) |
| 20.12.24 | Diwedd tymor |
| 23.12–06.01.25 | Gwyliau Nadolig |
| 06.01.25 | HMS Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 16.01.25 | Twrnament pêl-rwyd cymysg bl 5 & 6 yr Urdd |